OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2022 Rhif 996 (Cy. 212)

Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU
GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU

Gorchymyn Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020 (Cychwyn Rhif 2) 2022

Gwnaed - - - - 26 Medi 2022

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 29(2) o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020(**1**), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

Enwi a dehongli

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020 (Cychwyn Rhif 2) 2022.

(2) Yn y Gorchymyn hwn, ystyr "y Ddeddf" yw Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020.

Y ddarpariaeth sy'n dod i rym ar 1 Hydref 2022

2. Daw paragraff 22 o Atodlen 1 (cynllun blynyddol) i'r Ddeddf i rym ar 1 Hydref 2022.

Eluned Morgan
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

26 Medi 2022

(**1**) 2020 dsc 1.

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

Mae'r Gorchymyn hwn a wneir gan Weinidogion Cymru yn dwyn i rym ddarpariaethau penodol yn Neddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020 ("y Ddeddf").

Mae erthygl 2 o'r Gorchymyn hwn yn dwyn i rym baragraff 22 o Atodlen 1 i'r Ddeddf ar 1 Hydref 2022. Mae paragraff 22(1) yn ei gwneud yn ofynnol i Gorff Llais y Dinesydd ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Cymru ("y Corff"), cyn dechrau pob blwyddyn ariannol, gyhoeddi cynllun sy'n nodi sut y mae'n bwriadu arfer ei swyddogaethau yn ystod y flwyddyn. Bydd y cynllun cyntaf o'r fath yn cael ei lunio gan y Corff fel rhan o'i waith paratoi cyn arfer ei swyddogaethau o sylwedd a fydd yn cael eu cychwyn drwy orchymyn cychwyn dilynol. Mae paragraff 22(2) yn darparu bod rhaid i'r cynllun gynnwys datganiad o amcanion a blaenoriaethau'r Corff am y flwyddyn. Mae paragraff 22(3) yn ei gwneud yn ofynnol bod rhaid i'r Corff, cyn cyhoeddi cynllun, ymgynghori ag unrhyw bersonau y mae'n ystyried eu bod yn briodol ynghylch ei amcanion a blaenoriaethau arfaethedig.

NODYN AM Y GORCHMYNION CYCHWYN CYNHARACH

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

Mae'r darpariaethau a ganlyn o'r Ddeddf wedi eu dwyn i rym drwy Orchymyn Cychwyn a wnaed cyn dyddiad y Gorchymyn hwn:

Y Ddarpariaeth	*Y Dyddiad Cychwyn*	*Rhif O.S.*
Adran 24	8 Mawrth 2022	2022/208 (Cy. 66)(C. 9))
Adran 26	8 Mawrth 2022	2022/208 (Cy. 66)(C. 9))
Adran 12	1 Ebrill 2022	2022/208 (Cy. 66)(C. 9))
Adran 19 (yn rhannol)	1 Ebrill 2022	2022/208 (Cy. 66)(C. 9))
Adran 21	1 Ebrill 2022	2022/208 (Cy. 66)(C. 9))
Adran 22	1 Ebrill 2022	2022/208 (Cy. 66)(C. 9))
Atodlen 1 (yn rhannol)	1 Ebrill 2022	2022/208 (Cy. 66)(C. 9))